

**Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Caerdydd**  
**Cofnodion y cyfarfod**  
**Dydd Mawrth 24 Mai 2016, 1.30pm – 3.30pm**  
**Loudoun, Plas Iona, Butetown, Caerdydd**  
**Ystafelloedd Porth Teigr 1 a 2**



	<p><b><u>Yn bresennol:</u></b>  <b>Aelodau Bwrdd Statudol:</b></p> <p>Y Cynghorydd Phil Bale  Paul Orders  Gareth O’Shea</p> <p>Adam Cairns</p> <p>Sharon Hopkins</p> <p>Abigail Harris</p> <p>David Bents</p> <p><b>Cyfranogwyr Gwadd:</b>  Sheila Hendrickson-Brown  Prif Gwnstabl Peter Vaughan  Mark Brace  Eleanor Marks</p> <p><b>Ymddiheuriadau:</b>  Maria Battle</p> <p>Huw Jakeway  Peter Greenhill</p> <p>David Bebb</p> <p><b>Yn bresennol:</b>  Joseph Reay</p> <p>Gareth Newell</p> <p>Kate Ward</p> <p>Edward Janes</p> <p>Nick Batchelar</p>	<p>Arweinydd Cyngor Dinas Caerdydd  <b>(Cadeirydd)</b>  Prif Weithredwr, Cyngor Dinas Caerdydd  Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau  De Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru  Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol  Caerdydd a'r Fro  Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd  Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol  Caerdydd a'r Fro (Dirprwy Aelod)  Cyfarwyddwr Cynllunio, Bwrdd Iechyd  Prifysgol Caerdydd a'r Fro (Dirprwy Aelod)  Rheolwr Grŵp Gweithrediadau (Dirprwy  Aelod) Tân ac Achub De Cymru</p> <p>Prif Swyddog Gweithredol, C3SC  Heddlu De Cymru</p> <p>Comisiynydd Cynorthwyol yr Heddlu a  Throseddau  Dirprwy Gyfarwyddwr Isadran Cymunedau,  Llywodraeth Cymru</p> <p>Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd  a'r Fro  Prif Swyddog Tân, Tân ac Achub De Cymru  Pennaeth Uned Dosbarthu Leol, Uned  Dosbarthu Genedlaethol Cymru  Cwmni Adsefydlu Cymunedol</p> <p>Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau,  Cyngor Dinas Caerdydd  Rheolwr Polisiâu, Partneriaethau a Ffocws,  Cyngor Dinas Caerdydd  Prif Swyddog Polisi (Partneriaethau a</p>

	<p>Suzanne Scarlett</p> <p>Anne Wei</p> <p>Belinda Davies</p>	<p>Gwasanaethau), Cyngor Dinas Caerdydd Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Dinas Caerdydd (Eitem 6)</p> <p>Rheolwr Perfformiad Addysg, Cyngor Dinas Caerdydd (Eitem 6)</p> <p>Rheolwr Partneriaethau a Chynllunio Strategol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro</p> <p>Prif Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru</p>	
	<p>Agorodd PO'r cyfarfod, gan fod y Cynghorydd Bale wedi cael ei oedi mewn cyfarfod Dinasoedd Craidd ym Mryste. Cyflwynodd y sawl a oedd yn bresennol eu hunain. Aeth PO at eitem agenda 3 yn absenoldeb y Cynghorydd Bale.</p>		
<p><b>3.</b></p>	<p><b>Caerdydd Heddiw – Disgrifio'r Sefyllfa</b></p> <p>Rhoddodd Paul Orders gyflwyniad yn rhestru rhai o'r heriau allweddol sy'n wynebu Caerdydd heddiw. Cafodd copïau o adroddiad Caerdydd: Dinas Fyw, Dinas Byw eu dosbarthu i'r sawl a oedd yn bresennol. Cododd PO faterion megis: yr heriau demograffig unigryw sy'n wynebu Caerdydd yn y dyfodol; canfyddiad trosedd; ffyrdd afiach o fyw; effeithiau rhanbarth ehangach y ddinas, yn enwedig yn nhermau trafndiaeth; pocedi amddifadedd hir sefydlog yn y ddinas; a diwygiad i lywodraeth leol sydd ar fin digwydd.</p>		
<p><b>1.</b></p>	<p><b>Croeso a Chyflwyniadau</b></p> <p>Nodwyd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.</p>		
<p><b>2.</b></p>	<p><b>Aelodaeth</b></p> <p>Cafodd rhestr aelodaeth ei dosbarthu gyda phapurau, yn rhestru'r aelodau statudol; y rhai a oedd wedi cytuno i fod yn gyfranogwyr gwadd; a dirprwy aelodau ac aelodau'r Bwrdd Gweithredol a gadarnhaodd hyd yn hyn. Roedd pob aelod statudol a chyfranogwr gwadd wedi cadarnhau eu prif gynrychiolwyr ar y Bwrdd.</p> <p><b>CYTUNWYD</b> y bydd Aelodaeth y Bwrdd fel sydd ar bapurau'r cyfarfod, yn amodol ar y diwygiadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Caiff y Cadeirydd ei ddirprwyo gan y Cynghorydd Sue Lent, Dirprwy Arweinydd, Cyngor Dinas Caerdydd;</li> <li>- Cytunwyd ar Maria Battle fel Is-gadeirydd;</li> <li>- caiff gwahoddiad i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd ei roi i Gadeirydd y Rhanbarth Gwella Busnes, os digwydd pleidlais Ardal Gwella Busnes gadarnhaol;</li> <li>- Cadarnhad o aelodau a dirprwyon y Bwrdd Gweithredol erbyn diwedd yr wythnos ganlynol lle nad oedd partneriaid eisoes wedi'i wneud.</li> </ul> <p>Caiff cadeirio ac is-gadeirio'r Bwrdd Gweithredol ei gytuno gan y fforwm hwnnw.</p> <p>Yn ogystal, trafododd y Bwrdd sut y gellid sicrhau ymgysylltu'n briodol â, a chael cynrychiolaeth gan brifysgolion Caerdydd a chan bobl ifanc. Mae'n bosibl y bydd rhain ar faterion penodol a chânt eu trefnu fel sy'n briodol.</p>		<p><b>Ysgrifenyddiaeth</b></p> <p><b>Pawb</b></p> <p><b>Bwrdd Gweithredol</b></p>

	<p>Cafodd Cylch Gorchwyl fel y'i datblygwyd a'i argymhellwyd gan Fwrdd Partneriaeth Caerdydd eu dosbarthu gyda'r papurau.</p> <p><b>Cylch Gorchwyl:</b>  <b>CYTUNWYD</b> y bydd Cylch Gorchwyl Bwrdd Gwasanaethau Caerdydd yr un peth ag y dosbarthwyd gyda phapurau'r cyfarfod.</p> <p>Awgrymodd AC y dylai'r Bwrdd anelu at osod gweledigaeth gyffredinol ar gyfer ei waith a thrafodwyd hyn ymhellach o dan eitem agenda 5.</p>	<p><b>Ysgrifenyddiaeth</b></p>
<p><b>4.</b></p>	<p><b>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol</b>  Amlinellodd GN brif ddyletswyddau'r Bwrdd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn nhermau llunio Asesiad o Lesiant a Chynllun Llesiant.</p> <p>Bydd yr Asesiad yn adeiladu ar waith yr ymgwymerwyd ag ef i ddatblygu'r Asesiad Anghenion Beth Sy'n Bwysig, ond roedd wedi cael ei adolygu yn nhermau gofynion yr FGA a bu nifer o feysydd lle nad oedd yn cyrraedd y statud (e.e. y broses ymgynghori, adlewyrchu'r 46 Dangosydd Cenedlaethol; a rhestr tueddiadau'r dyfodol).</p> <p>Yn ogystal, trafododd y Bwrdd yr angen i gofleidio deddfwriaeth newydd wrth ystyried ei flaenoriaethau ar gyfer y dyfodol, er enghraifft y Ddeddf Addysg yn nhermau'r gofyniad i lunio Datganiadau Ardal ar gyflwr Cyfoeth Naturiol mewn lleoliad. Efallai na fyddai hyn yn effeithio ar yr Asesiad a'r Cynllun cyntaf ond byddai'n ddefnyddiol wrth ailadrodd yn y dyfodol.</p> <p><b>CYTUNWYD</b> y caiff yr Asesiad o Lesiant Lleol a'r Cynllun Llesiant eu llunio yn unol â'r fethodoleg, camau nesaf a'r amserlin a gyflwynwyd i'r cyfarfod.</p>	<p><b>Ysgrifenyddiaeth</b></p>
<p><b>5.</b></p>	<p><b>Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Blaenoriaethau ar gyfer Gweithio mewn Partneriaeth</b>  Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod i drafodaeth ford gron ar flaenoriaethau cyntaf y Bwrdd ar gyfer camau gweithredu a'i weledigaeth yn y dyfodol. Codwyd nifer o faterion, yn enwedig o ran ymgysylltu cyhoeddus, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Yr angen i wella ymgysylltu cymunedol a gweithio mewn cymdogaeth, i orchymyn adeiladu gallu mewn cymunedau i allu cyfrannu er mwyn cyflawni newid cynaliadwy eu hunain;</li> <li>- Sicrhau atebolrwydd democrataidd mewn cyd-destun ehangach na thrwy graffu'r Awdurdod Lleol yn unig;</li> <li>- Cipio llais yr ieuentid, sydd wedi ei dangynrychioli mewn ymgysylltu traddodiadol, gan gynnwys yn yr arolwg Holi Caerdydd, o bosibl trwy gloddio data cyfryngau cymdeithasol;</li> <li>- Yr angen am her allanol a chynghor i sicrhau bod y bwrdd yn cadw i fyny gydag arfer gorau ledled y DU ac Ewrop;</li> <li>- Pwysigrwydd bod yn glir o ran pa ganlyniadau mae'r Bwrdd yn disgwyl eu cyflawni.</li> </ul>	

	<p><b>CYTUNWYD</b> y dylid comisiynu'r BGC Gweithredol i ymgymryd ag adolygiadau o:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Effeithiolrwydd y dull presennol o weithio mewn partneriaethau gyda chymdogaethau;</li> <li>- Y fframwaith adrodd/llywodraethiant a'r strwythur rhaglen/project a sefydlwyd o dan y Bwrdd Partneriaeth Caerdydd blaenorol.</li> </ul> <p>Dylid cwblhau'r rhain er mwyn adrodd yn ôl i'r Bwrdd yn ei gyfarfod fis Tachwedd 2016.</p> <p><b>CYTUNWYD</b> y dylai'r Bwrdd Gweithredol gael y dasg o gomisiynu ffynhonnell herio a chyngor allanol i weithio ochr yn ochr â'r Bwrdd, er mwyn darparu cyngor ar faterion trigo.</p> <p><b>CYTUNWYD</b> y bydd y Bwrdd Gweithredol yn llunio cynigion ar gyfer hyb arloesi bach wedi'i secondio, a allai gynnal cyflawni wedi'i gydlynu o ran canlyniadau BGC y cytunwyd arnynt, ystyried heriau gwydnwch yn y dyfodol, yn ogystal â helpu gyrru arloesedd o ran gwasanaeth cyhoeddus mewn lleoliadau penodol yn y ddinas.</p> <p><b>CYTUNWYD</b> y bydd y Bwrdd yn cynnal gweithdy wedi'u hwyluso, gan ddefnyddio canlyniadau'r dadansoddiad meintiol a'r arolwg Holi Caerdydd, er mwyn sefydlu nifer fach o faterion blaenoriaeth. Yn ogystal, bydd y gweithdy yn diffinio a chytuno ar weledigaeth gyffredinol o ansawdd bywyd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio mewn partneriaeth yng Nghaerdydd.</p> <p><b>CYTUNWYD</b> y bydd y Bwrdd yn cwrdd tair gwaith y flwyddyn i gynnal ei fusnes, gan gynnal cyfarfod fforwm ehangach ar yr un diwrnod i ystyried y materion penodol hyn yn fanwl, a bydd partneriaid ac ymgynghorwyr yn mynychu fel sy'n briodol.</p>	
6.	<p><b>Caerdydd 2020 – Gweledigaeth wedi'i hadnewyddu ar gyfer addysg a dysgu</b></p> <p>Mynychodd NB ac SS er mwyn cyflwyno trosolwg o'r sefyllfa yn nhermau pobl ifanc sy'n symud ymlaen o ysgol i gyflogaeth, dysg neu hyfforddiant (EET) a'r heriau a wynebir yng Nghaerdydd.</p> <p>Trafododd y Bwrdd nifer o faterion gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn EET a oedd yn Blant sy'n Derbyn Gofal neu yn y System Cyfiawnder Troseddol;</li> <li>- A yw'n bosibl i adnabod pobl ifanc nad ydynt yn debygol o symud ymlaen i EET ac felly rhoi ymyriadau cynnal priodol, o ystyried bod y nifer sydd yn EET yn gyfran fach o'r garfan gyfan (152 yn 2015, o tua 3000). Cadarnhaodd NB mai dyma'r ymagwedd a gymerir. Mae gwaith ar y gweill gyda Choleg Caerdydd a'r Fro er mwyn datblygu cynllun prentisiaid iau a llwybrau galwedigaethol;</li> <li>- Yr angen i ffurfio a pheilotu cynlluniau prentisiaid ehangach, yn enwedig pan na fydd llwybrau gyrfa yn glir o bosibl (e.e. ar gyfer gofalwyr);</li> <li>- Adeiladu cysylltiadau cryfach rhwng cyflogwyr ac athrawon;</li> </ul>	

	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Creu rôl cydlynedd rhaglen i greu pont rhwng pobl ifanc a chyflogwyr o safbwynt prentisiaethau;</li> <li>- Ymrwymiad partneriaid i gynnig cyfleoedd cyflogi i'r rhai nad ydynt yn EET.</li> </ul> <p><b>CYTUNWYD</b> y dylid rhoi'r dasg o ystyried datblygiad prentisiaethau yn y ddinas i'r Bwrdd Gweithredol, yn enwedig yn nhermau lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt yn EET, ac alinio gyda'r strategaeth ranbarthol.</p> <p><b>CYTUNWYD</b> y dylid ail-ddosbarthu gwahoddiad y Cynghorydd Bale i fynychu'r confensiwn Addysg ar 29 Mehefin 2016 i aelodau BGC.</p>	<p><b>Bwrdd Gweithredol</b></p> <p><b>Ysgrifenyddiaeth</b></p>
<p><b>7.</b></p>	<p><b>Perfformiad Rhaglen Bwrdd Partneriaeth Caerdydd</b></p> <p>Derbyniodd y Bwrdd gopïau o'r adroddiadau perfformiad Chwarter 4 ar gyfer y rhaglenni a sefydlwyd o dan y Bwrdd Partneriaethau ac ar gyfer y chwe ardal cymdogaeth. Ni chafodd unrhyw gamau gweithredu neu benderfyniadau eu codi ar gyfer y Bwrdd. Fel uchod, cytunodd y Bwrdd y dylai'r Bwrdd Gweithredol adolygu trefniadau adrodd a llywodraethu ac i adrodd i gyfarfod mis Tachwedd y BGC.</p>	
<p><b>8.</b></p>	<p><b>Sgano'r Gorwel ac Unrhyw Fater Arall</b></p> <p>8.1 Roedd copïau o aelodaeth a Chylch Gorchwyl Bwrdd Partneriaeth wedi cael eu dosbarthu er gwybodaeth.</p> <p>8.2 Cafodd diweddariad ar y Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol ei ddosbarthu gyda phapurau, ar ôl cael ei ohirio yn dilyn cyfarfod terfynol Bwrdd Partneriaethau Caerdydd. Roedd y bwrdd project yn cyfarfod ar yr un pryd â'r BGC a gallai diweddariad pellach gael ei ddarparu yn ôl yr angen.</p>	
<p><b>9.</b></p>	<p><b>Dyddiadau Cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Caerdydd</b></p> <p>Mae argaeledd aelodaeth y Bwrdd newydd i'w gadarnhau ac amserlennu dyddiadau cyfarfodydd fel sy'n briodol. Caiff cyfarfodydd eu cynnal mewn lleoliadau cymunedol.</p>	<p><b>Ysgrifenyddiaeth</b></p>

	<b>Camau Gweithredu</b>
1.	<p><b>CYTUNWYD y bydd Aelodaeth y Bwrdd fel sydd ar bapurau'r cyfarfod, yn amodol ar y diwygiadau canlynol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Caiff y Cadeirydd ei ddirprwyo gan y Cynghorydd Sue Lent, Dirprwy Arweinydd, Cyngor Dinas Caerdydd;</li> <li>- Cytunwyd ar Maria Battle fel Is-gadeirydd;</li> <li>- caiff gwahoddiad i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd ei roi i Gadeirydd y Rhanbarth Gwella Busnes, os digwydd pleidlais Ardal Gwella Busnes cadarnhaol;</li> <li>- Cadarnhad o aelodau a dirprwyon y Bwrdd Gweithredol erbyn diwedd yr wythnos ganlynol lle nad oedd partneriaid eisoes wedi'i wneud.</li> <li>-</li> </ul>
2.	<p><b>CYTUNWYD y bydd Cylch Gorchwyl Bwrdd Gwasanaethau Caerdydd yr un peth ag y dosbarthwyd gyda phapurau'r cyfarfod.</b></p>
3.	<p><b>CYTUNWYD y caiff yr Asesiad o Lesiant Lleol a'r Cynllun Llesiant eu llunio yn unol â'r fethodoleg, camau nesaf a'r amserlin a gyflwynwyd i'r cyfarfod.</b></p>
4.	<p><b>CYTUNWYD y dylid comisiynu'r BGC Gweithredol i ymgymryd ag adolygiadau o:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Effeithiolrwydd y dull presennol o weithio mewn partneriaethau gyda chymdogaethau;</li> <li>- Y fframwaith adrodd/llywodraethiant strwythur rhaglen/project a sefydlwyd o dan y Bwrdd Partneriaeth Caerdydd blaenorol.</li> </ul>
5.	<p><b>CYTUNWYD y dylai'r Bwrdd Gweithredol gael y dasg o gomisiynu ffynhonnell herio a chyngor allanol i weithio ochr yn ochr â'r Bwrdd, er mwyn darparu cyngor ar faterion trigo.</b></p>
6.	<p><b>CYTUNWYD y bydd y Bwrdd Gweithredol yn llunio cynigion ar gyfer hyb arloesi, a allai gynnal a chyflawni wedi'i gydlynu o ran canlyniadau BGC y cytunwyd arnynt, ystyried heriau gwydnwch yn y dyfodol, yn ogystal â helpu gyrru arloesedd o ran gwasanaeth cyhoeddus mewn lleoliadau ymlaen yn y ddinas.</b></p>
7.	<p><b>CYTUNWYD y bydd y Bwrdd yn cynnal gweithdy wedi'u hwyluso, gan ddefnyddio canlyniadau'r dadansoddiad meintiol a'r arolwg Holi Caerdydd, er mwyn sefydlu nifer fach o faterion blaenoriaeth. Yn ogystal, bydd y gweithdy yn diffinio a chytuno ar weledigaeth gyffredinol o ansawdd bywyd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio mewn partneriaeth yng Nghaerdydd.</b></p>
8.	<p><b>CYTUNWYD y bydd y Bwrdd yn cwrdd tair gwaith y flwyddyn i gynnal ei fusnes, gan gynnal cyfarfod fforwm ehangach ar yr un diwrnod i ystyried y materion penodol hyn yn fanwl, a bydd partneriaid ac ymgynghorwyr yn mynychu fel sy'n briodol.</b></p>
9.	<p><b>CYTUNWYD y dylid rhoi'r dasg o ystyried datblygiad prentisiaethau yn y ddinas i'r Bwrdd Gweithredol, yn enwedig yn nhermau lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt yn EET, ac alinio gyda'r</b></p>

	strategaeth ranbarthol.
10.	<b>CYTUNWYD y dylid ail-ddosbarthu'r gwahoddiad i fynychu'r Confensiwn addysg ar 29 Mehefin ar 29 Mehefin 2016 i aelodau'r BGC.</b>
11.	Mae argaeledd aelodaeth y Bwrdd newydd i'w gadarnhau a dyddiadau cyfarfodydd i'w hamserlennu fel sy'n briodol. Caiff cyfarfodydd eu cynnal mewn lleoliadau cymunedol.